Cynllun Gweithredu Rhianta - Crynodeb

Dogfen Wybodaeth

Rhianta

Dogfen Wybodaeth AHA Rhif: **055-05**
Dyddiad Cyhoeddi: **Rhagfyr 2005**



Cefnogi mamau, tadau a gofalwyr sy'n magu plant yng Nghymru

PLANT A PHOBL IFANC - GWEITHREDU'R HAWLIAU
CHILDREN AND YOUNG PEOPLE - RIGHTS TO ACTION

www.dysgu.cymru.gov.uk
www.learning.wales.gov.uk

Adran Hyfforddiant ac Addysg
Department for Training and Education

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Teitl y ddogfen: Cynllun Gweithredu Rhianta: Cefnogi mamau, tadau a gofalwyr sy'n magu plant yng Nghymru - Crynodeb

Cynulleidfa: Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG; Cyfarwyddwyr Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd y Cyhoedd ac Ymwelwyr Iechyd; Cydgysylltwyr Fframwaith; Prif Swyddogion Ieuenctid; Fforymau Ieuenctid; Prif Fudiadau Gwirfoddol Plant; Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol; Comisiwn Cyfle Cyfartal; Comisiwn Hawliau Anabledd; Llyfrgellwyr Sir; Gwasanaethau Gwirfoddol Cymunedol; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Prif Gwnstabliaid yr Heddlu, TUC Cymru; Aelodau'r Gweithgor Cynllun Gweithredu Rhianta; Comisiynydd Plant Cymru; Aelodau'r Cynulliad.

Trosolwg: Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu eu cymryd i godi proffil rhianta yng Nghymru, ac i sicrhau bod mwy o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gael i rieni.

Gwybodaeth bellach: Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Huw G Jones
Ffôn: 029 2082 3675
Ffacs: 029 2082 5116
E-bost: **cft@wales.gsi.gov.uk**

Copïau ychwanegol: Gellir eu derbyn oddi wrth

Jane Hanbury
Ffôn: 029 2082 5101
Ffacs: 029 2082 5116

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar **www.dysgu.cymru.gov.uk**

Dogfennau perthnasol:

Ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Rhianta drafft a gyhoeddwyd ar 15 Mawrth 2005.

G/401/05-06
ISBN 0 7504 3963 7

Tachwedd
CMK-22-07-075

Cysodwyd mewn 12pt
© Hawlfraint y Goron 2005

1. RHAGAIR

1.1 Mae bod yn rhiant yn waith caled. Mae angen cefnogaeth ac anogaeth ar bawb sy'n gofalu am blant. Mae hefyd angen cyngor a gwybodaeth arnynt am amrywiaeth o bethau wrth i'w plant dyfu. Nod y Cynllun Gweithredu Rhianta hwn yw sicrhau bod rhieni yng Nghymru yn cael y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt, drwy nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu ei wneud i rieni hyd at fis Mawrth 2008.

1.2 Mae'r Fersiwn Cryno hwn yn nodi prif bwyntiau'r Cynllun Gweithredu Rhianta. Am fanylion llawn o'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud ar gyfer rhieni, bydd angen i chi gyfeirio at y brif ddogfen.

1.3 Mae'r Cynllun Gweithredu Rhianta yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw ceisio gwneud yn siwr fod pob dim a wna yn helpu i roi hawliau plant a phobl ifanc ar waith. Mae gan rieni hawliau hefyd, gan gynnwys yr hawl i gefnogaeth wrth fagu eu plant.

1.4 Yn ôl Erthygl 18 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig:

"Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros godi eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio."

1.5 Mae llawer o bobl yn helpu i fagu plentyn, ac yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl ifanc. Gall y rhain gynnwys teidiau a neiniau, gofalwyr maeth, pobl sydd wedi mabwysiadu plant, llys-rieni, ac weithiau hefyd brodyr a chwiorydd hyn.

1.6 Wrth helpu pobl i fagu plant, mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny mewn ffyrdd sy'n ystyried y gwahanol ddiwylliannau a'r cefndiroedd ethnig sy'n bodoli yng Nghymru heddiw.

1.7 Byddwn yn cyhoeddi'r diweddaraf am unrhyw gynnydd a wnawn ym mhob maes o'r Cynllun Gweithredu hwn ym mis Tachwedd 2006 a mis Tachwedd 2007.

2. ARIAN YCHWANEGOL AR GYFER Y GWASANAETHAU I RIENI

2.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu i gefnogi gwasanaethau ar gyfer rhieni drwy Cymorth - Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc. Byddwn yn defnyddio Cymorth i roi arian i wasanaethau plant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol fydd yn penderfynu sut y caiff yr arian ei wario ym mhob ardal.

2.2 Bydd rhan o arian Cymorth yn cael ei wario ar wasanaethau i gefnogi teuluoedd, gan gynnwys dosbarthiadau i rieni newydd, grwpiau rhieni a phlant bach, a grwpiau i rieni sengl. Ar hyn o bryd, mae mwy na 200 o brosiectau teulu yn cael eu cefnogi yn y modd hwn.

2.3 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu rhoi arian ychwanegol i Cymorth yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bydd hyn yn dechrau digwydd o Ebrill 2006. Rydym wedi rhoi canllawiau i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol, gan ddweud wrthynt bod disgwyl iddynt ddefnyddio'r arian ychwanegol hwn i roi mwy o gymorth i rieni.

2.4 Mae'r Loteri Fawr yn cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu o leiaf un Ganolfan Blant Integredig ym mhob ardal awdurdod lleol. Bydd y canolfannau hyn yn dod â llawer o wasanaethau i rieni a phlant at ei gilydd, gan gynnwys addysg y blynyddoedd cynnar, gofal plant, chwarae, cefnogi teuluoedd a gwasanaethau iechyd.

2.5 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cyhoeddi strategaeth gofal plant sy'n nodi ffyrdd o gynyddu nifer y lleoedd gofal plant a rhoi mwy o ddewis i rieni.

3. GWASANAETHAU GWYBODAETH A CHYNGOR

3.1 Un o'r pethau pwysicaf sydd ei angen ar rieni yw cyngor a gwybodaeth o ansawdd dda. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn rhoi dau lyfr canllaw i bob rhiant newydd:

- 'Naw Mis a Mwy' - arweiniad cyflawn i feichogi, geni a'r wythnosau cyntaf gyda'ch babi newydd;
- 'Y Blynyddoedd Cyntaf' - llawlyfr cynhwysfawr ar fagu plant ac ar bum mlynedd gyntaf bywyd eich plentyn.

3.2 Drwy gyfrwng y Cynllun Gweithredu Rhianta rydym am sicrhau bod mwy o gyngor a gwybodaeth ar gael i rieni ledled Cymru.

Llinell gymorth Ffôn

3.3 Byddwn yn trefnu llinell gymorth ffôn i rieni yng Nghymru, a all gynnig cyngor a chefnogaeth i rieni yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Rydym yn edrych ar amrywiol opsiynau cyflwyno'r gwasanaeth hwn, a bydd penderfyniad terfynol ar y ffordd ymlaen yn cael ei wneud erbyn diwedd 2005.

3.4 Bydd y llinell gymorth newydd yn gallu rhoi'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf i rieni ar yr hyn sydd ar gael yn eu hardal leol. Bydd hefyd yn gallu eu trosglwyddo i ffynonellau lleol eraill sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth.

Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant

3.5 Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Blant ym mhob ardal leol yng Nghymru. Maent yn cynnig cyngor i rieni ar ystod o faterion gan gynnwys gofal plant, rhianta, gweithgareddau hamdden, gwasanaethau addysg, llyfrgelloedd, gwasanaethau iechyd a sefydliadau plant lleol.

3.6 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc i ddatblygu gwell Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant i rieni yng Nghymru.

Llyfrynnau i Rieni

3.7 Yn 2003/04, bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Sefydliad Cenedlaethol y Teulu a Magu Plant a Plant yng Nghymru i ddatblygu dau lyfryn i rieni:

- O Amser Brecwast i Amser Gwely - cyngor i rieni ar sut i ymdopi â chyfnodau anodd yn ystod y dydd fel amser bwyd a chael plant bach yn barod ar gyfer mynd i'r gwely;

- Ymddygiad dros ben Llestri Plant dan Ddeg - cyngor i rieni ar pam bod plant yn ymddwyn fel ag y maent, a sut i ymdrin ag ymddygiad anodd.

3.8 Profwyd y llyfrynnau hyn mewn tair ardal yng Nghymru. Roedd yr adborth a gafwyd gan rieni yn gadarnhaol iawn, felly byddwn yn gwneud yn siwr fod y llyfrynnau hyn ar gael i fwy o rieni yng Nghymru. Dylai'r llyfrynnau fod ar gael ym mhob man yng Nghymru erbyn diwedd Mawrth 2006.

4. HYRWYDDO RHIANTA POSITIF

Cosb gorfforol

4.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn nad yw taro plant yn dderbyniol. Nid yw taro plentyn yn annog oedolion, plant a phobl ifanc i barchu ei gilydd. Rydym o'r farn fod ffyrdd gwell o ymdrin ag ymddygiad anodd a dysgu'r gwahaniaeth i blant rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir. Gwyddom fod llawer o rieni am gael cyngor ar sut i ddelio â hyn. Yn ystod 2006-07, byddwn yn paratoi llyfryn i rieni gydag awgrymiadau ar sut i fagu plant heb ddefnyddio cosb gorfforol. Caiff y llyfryn hwn ei ddosbarthu i bob rhiant newydd.

Rhaglenni'r Blynyddoedd Anhygoel

4.2 Mae rhaglen rianta'r Blynyddoedd Anhygoel wedi'i hanelu at rieni plant sy'n ymddwyn mewn modd mor anodd fel bod hyn yn achosi problemau iddynt eu hunain ac i'w ffrindiau, ond hefyd i'w rhieni a'u hathrawon. Gellir ei defnyddio hefyd i atal ymddygiad o'r fath rhag datblygu yn y lle cyntaf. Mae canlyniadau wedi dangos bod ymddygiad anodd gan blant yn llai o broblem i'r rhieni hynny sydd wedi mynychu'r rhaglen rianta. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu rhoi arian i Blynyddoedd Anhygoel Cymru o 2006-07 i hyfforddi mwy o bobl i redeg y dosbarthiadau hyn. Gobeithiwn y bydd hyn yn helpu i ledaenu'r dosbarthiadau ar draws Cymru, gan helpu llawer iawn mwy o blant a'u rhieni.

5. CAEL RHIENI I GYMRYD RHAN WRTH GYNLLUNIO GWASANAETHAU

5.1 Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc ym mhob ardal leol sy'n penderfynu ar y ffordd y mae gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn cael eu trefnu mewn gwahanol ardaloedd o Gymru. Rhaid i'r Partneriaethau wneud yn siwr y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd gael roi eu barn ar y gwasanaethau sydd ar gael a sut y cânt eu trefnu.

5.2 Mewn rhai ardaloedd sefydlwyd Rhwydweithiau Rhieni. Mae'r rhain yn dod â rhieni a'r bobl sy'n trefnu'r gwasanaethau ynghyd i siarad am y pethau sy'n effeithio arnynt ac i awgrymu newidiadau neu welliant. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am annog y Rhwydweithiau Rhieni hyn. Ar ddechrau 2006 byddwn yn dechrau gwaith ar ganllaw i bartneriaethau lleol ar y ffyrdd gwahanol o gael rhieni i gymryd rhan, gan gynnwys arferion da o ran sefydlu Rhwydweithiau Rhieni.

6. ADDYSG AC YSGOLION

6.1 Mae rhieni'n bwysig o ran helpu eu plant i setlo yn yr ysgol a'u hannog i ddysgu. Maent yn gyfrifol am wneud yn siwr fod eu plant yn mynychu'r ysgol, ac mae angen i ysgolion gysylltu â hwy pan fydd problemau'n codi fel bwlio neu gamymddwyn. Gallant hefyd fod yn rhan o drafodaethau ynghylch dewis gyrfa neu pa bynciau i'w cymryd. Mae'n hanfodol fod ysgolion yn trafod eu dulliau a'u cynlluniau gyda'r rhieni.

6.2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am annog ysgolion i greu gwell cysylltiadau â rhieni. Rydym heyd am weld mwy o ysgolion yn gweithredu fel canolfan ar gyfer y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd. Yma gall ysgolion ddarparu gwasanaethau nad ydynt ar gael mewn mannau eraill yn y gymuned. Gallai hyn gynnwys pethau fel gofal plant, addysg a chyrsiau hyfforddi i oedolion, neu ganolfannau gwybodaeth i rieni.

6.3 Byddwn hefyd yn parhau i wella Rhwydrieni, y wefan addysg newydd i rieni (www.dysgu.cymru.gov.uk/rhieni).

6.4 Mae ysgolion hefyd yn addysgu plant a phobl ifanc ynghylch bod yn rhiant fel rhan o Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh). Mae hyn yn cynnwys addysgu am ryw a chydberthynas, bod yn feichiog a sut mae'n teimlo i gael plentyn. Os bydd plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu'n dda yn yr ysgol, yna bydd ganddynt y sgiliau a'r hyder i fod yn rhieni da. Rai blynyddoedd yn ôl cyhoeddwyd canllawiau newydd ar sut i ddysgu ABCh mewn ysgolion. Hefyd, yn 2003 fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru hi'n orfodol bod ABCh yn cael ei haddysgu ym mhob ysgol. Byddwn yn parhau i geisio gwella sut mae'r pwnc hwn yn cael ei addysgu.

Mae copïau ychwanegol ar gael gan:

Jane Hanbury
Tîm Fframwaith Plant
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5101
Ffacs: 029 2082 5116

Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.dysgu.cymru.gov.uk